OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 Rhif 292 (Cy. 43)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth.

Mae rheoliad 4 o'r prif Reoliadau yn darparu bod rhaid i gyrff cyfrifol, wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu â sefydliadau sector preifat penodol neu sefydliadau trydydd sector penodol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau fel bod rhaid i gyrff cyfrifol ymgysylltu hefyd ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod diffiniadau perthnasol at y dibenion hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

# 2023 No. 292 (W. 43)

# SOCIAL CARE, WALES

# The Care and Support (Population Assessments) (Wales) (Amendment) Regulations 2023

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Care and Support (Population Assessments) (Wales) Regulations 2015 ("the principal Regulations"), which make provision for the carrying out of population assessments.

Regulation 4 of the principal Regulations provides that, in carrying out a population assessment, responsible bodies must engage with certain private sector or third sector organisations. Regulation 2 of these Regulations amends regulation 4 of the principal Regulations so that responsible bodies must also engage with any public body which they believe is concerned with or has an interest in the provision of care and support or preventative services to the local population. Regulation 2 of these Regulations also inserts relevant definitions for these purposes.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2023 Rhif 292 (Cy. 43)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *10 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14(1) a (2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector)—

(a) yn lle'r pennawd, rhodder—

"**4.** Ymgysylltu â'r sector preifat, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus";

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1367 (Cy. 135).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2023 No. 292 (W. 43)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care and Support (Population Assessments) (Wales) (Amendment) Regulations 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2023* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *10 March 2023* |
| *Coming into force* | *1 April 2023* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 14(1) and (2) and 198(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**).

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Care and Support (Population Assessments) (Wales) (Amendment) Regulations 2023.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2023.

**Amendments to the Care and Support (Population Assessments) (Wales) Regulations 2015**

**2.**—(1) The Care and Support (Population Assessments) (Wales) Regulations 2015(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 4 (engagement with the private sector and third sector)—

(a) for the heading, substitute—

"**4.** Engagement with the private sector, third sector and public bodies";

(**1**) 2014 anaw 4.
(**2**) S.I. 2015/1367 (W. 135).

(b) ym mharagraff (1), yn lle "neu unrhyw sefydliad trydydd sector sy'n ymwneud â, neu sy'n ymddiddori mewn," rhodder ", unrhyw sefydliad trydydd sector neu unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â" ac o flaen y geiriau "i'r boblogaeth leol" mewnosoder ", neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol,";

(c) yn lle paragraff (2), rhodder—

"(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw corff (pa un a yw'n gorfforedig neu'n anghorfforedig) sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus. At ddiben y diffiniad hwn, mae swyddogaeth gyhoeddus yn swyddogaeth sy'n swyddogaeth o natur gyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998(**1**);

mae i "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yr un ystyr ag yn adran 16(2) o'r Ddeddf(**2**).".

(b) in paragraph (1), for "or third sector organisation which" substitute ", third sector organisation or public body which they believe";

(c) for paragraph (2), substitute—

"(2) For the purposes of this regulation—

"public body" ("*corff cyhoeddus*") means a body (whether corporate or unincorporated) exercising public functions. For the purpose of this definition, a public function is a function that is a function of a public nature for the purposes of the Human Rights Act 1998(**1**);

"third sector organisation" ("*sefydliad trydydd sector*") has the same meaning as in section 16(2) of the Act(**2**).".

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Mawrth 2023

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
9 March 2023

©ⓗHawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 1998 p. 42.
(**2**) Yn adran 16(2) o'r Ddeddf, ystyr "sefydliad trydydd sector" yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas.

(**1**) 1998 c. 42.
(**2**) In section 16(2) of the Act, "third sector organisation" means an organisation which a person might reasonably consider to exist wholly or mainly to provide benefits to society.

ISBN 978-0-348-39427-6

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/292